



Cofnodion Cyfarfod Gweithgor y Ganolfan Dreftadaeth

8 Medi 2025, Hwb Rhuddlan

Yn bresennol

Y Cynghorydd Mike Kermode
Y Cynghorydd Val Simmons
Steve Wilson – Clerc y Dref
Morgan Ditchburn – Clerc y Dref Cynorthwyol
Matthew Baker Llyfrgelloedd CSDd
Richard Polden – Cymdeithas Hanes Rhuddlan

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Mike Elgin

2. Datgan buddiant

3. Diweddariad am y Llyfrgell

Rhoddodd Matthew Baker ddiweddariad am y llyfrgell. Mae'r defnydd wedi bod yn uchel drwy gydol yr haf, ac roedd gormod o bobl yn bresennol mewn rhai digwyddiadau. Roedd llawer o blant wedi cymryd rhan yn y Sialens Ddarllen. Bydd y llyfrgell yn gweithio gydag Ysgol y Castell i gynnal digwyddiad hanes lleol.

Nid yw sefyllfa ariannu'r llyfrgell wedi newid, ac mae toriadau pellach i ddod.

Bydd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael ei lofnodi.

Bydd Cyngor Tref presennol Rhuddlan yn parhau i gefnogi'r llyfrgell ac yn parhau i'w hariannu tan fis Mawrth 2028.

Bydd grŵp llyfrau newydd yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 15 Medi. Bydd yn agored i bawb sydd â diddordeb.

Gobeithir hefyd y bydd modd trefnu siaradwyr gwadd ar gyfer boreau Gwener cymdeithasol.

Hyd yma, mae'r gymuned wedi ymateb yn gadarnhaol iawn tuag at bopeth mae'r llyfrgell wedi'i drefnu ac wedi cefnogi.

4. Diweddariad am Gyfeillion y Llyfrgell

Rhoddodd y Cynghorydd Val Simmons ddiweddariad am weithgareddau diweddar y grŵp. Mae pethau wedi bod yn gadarnhaol ac wedi bod yn mynd yn dda. Mae trefniadau bancio'r grŵp wedi'u cwblhau. Mae'r grŵp wedi bod yn bresennol iawn ym mhob digwyddiad sydd wedi'i gynnal yn y llyfrgell. Bydd y Cyfeillion yn ceisio darparu adnoddau ar gyfer digwyddiadau crefft.

Byddant hefyd yn bresennol yn y farchnad gymunedol ym mis Hydref ac maent wedi trefnu raffl i godi arian. Cyfrannwyd £5,000 hyd yma, fodd bynnag mae'r arian wedi'i glustnodi ar gyfer addysg

plant yn unig, felly ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer cynnal y grŵp neu faterion gweinyddol. Mae'r Cyfeillion wedi gwneud cais i Gyngor Tref Rhuddlan am £1,500 i hwyluso'r gwaith o redeg y grŵp. Ymhlith digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol mae Bingo Calan Gaeaf a digwyddiad Nadolig. Ar y cyfan, mae'r grŵp yn gwneud yn dda.

4. Diweddariad am y Ganolfan Dreftadaeth

Roedd Morgan wedi llunio fersiwn drafft o'r ddogfen Mynegi Diddordeb. Trafodwyd hyn ac awgrymwyd newidiadau. Adolygwyd y costau i roi cyfanswm o dan £1 miliwn.

Mae rhagor o fanylion yn adroddiad y Cadeirydd.

Dywedodd y Cynghorydd Mike Kermode ei fod bellach wedi camu i lawr fel cadeirydd, felly mae angen cadeirydd newydd.

Yn y dyfodol, bydd y gweithgor yn gweithredu fel dau grŵp ar wahân – bydd un grŵp yn canolbwyntio ar y llyfrgell, a'r llall ar y ganolfan dreftadaeth.